Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

**SWYDDOG DATBLYGU IEUENCTID (GD CYMRU)**
**DISGRIFIAD SWYDD**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Gweithio hybrid (cyfleusterau swyddfa Aberduna ar gael). Mae'r rôl yn cynnwys teithio'n rheolaidd ar draws Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Conwy. |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Ieuenctid & Cymunedau |
| **Cytundeb:** | Llawn amser, tymor penodol tan 31 Rhagfyr 2027 |

**Diben cyffredinol y swydd:**

Gweithio gydag ysgolion uwchradd, colegau a grwpiau cymunedol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru i wella iechyd a rhagolygon swyddi pobl ifanc 11-24 oed yn y dyfodol; trwy gyflwyno gweithgareddau sy'n meithrin mwy o gysylltiad â natur ac yn eu cyfarparu â'r sgiliau a'r wybodaeth i ddilyn gyrfaoedd yn y sector gwyrdd.

**Prif gyfrifoldebau:**

- Arwain y gwaith o ddylunio a chyflwyno rhaglen ddysgu a datblygiad personol sy'n seiliedig ar natur, gyda hyd at bum grŵp oedran uwchradd (11-16 oed) o ysgolion a lleoliadau cymunedol ar draws tair sir ddwyreiniol Gogledd Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Bydd y grwpiau hyn yn cael eu hystyried yn 'newydd i natur' a bydd y ffocws yn bennaf ar wella eu hiechyd a'u lles trwy feithrin ymdeimlad gwell o gysylltiad â natur.

- Gweithio gyda'n Swyddog Addysg a Chymuned i ddylunio a chyflwyno rhaglen o weithdai ar gyfer grwpiau ysgolion uwchradd (14+ oed) yn yr un rhanbarthau hyn, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ac adeiladu gwybodaeth ar gyfer gyrfaoedd yn y sector gwyrdd. Bydd y sesiynau hyn sydd â thema fwy galwedigaethol yn ymdrin â phynciau fel cynaliadwyedd, llythrennedd carbon, ffermio sy'n gyfeillgar i natur ac atebion naturiol i newid hinsawdd.

- Sefydlu a hwyluso ein fforwm amgylcheddol cyntaf, dan arweiniad pobl ifanc, yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Bydd y grŵp hwn yn adlewyrchu'r fforwm a fu gennym yng Ngogledd-orllewin Cymru am y pum mlynedd diwethaf a bydd yn cefnogi pobl ifanc sydd â diddordeb i ddysgu am natur ar eu stepen drws (gan gynnwys bygythiadau iddi a sut y gallant ei diogelu), datblygu sgiliau gwyrdd, cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol ac ennill profiad gwaith ymarferol.

- Rheoli cyflwyniad llwyddiannus cwrs hyfforddi ieuenctid blynyddol, wythnos o hyd (12 o bobl y flwyddyn), gan gydlynu arbenigedd staff mewnol a modiwlau dysgu achrededig. (12 o bobl y flwyddyn); i fod wedi'i leoli yn ein swyddfa yn Aberduna. Defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd staff o bob cwr o'r Ymddiriedolaeth i gyflwyno modiwlau dysgu

achrededig sy'n cwmpasu ystod eang o bynciau sy'n gysylltiedig â chadwraeth.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac felly, dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y nodir yn y llawlyfr staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gosod a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant 'gallu gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, menter, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

**Manyleb y person:**

Rydym yn chwilio am unigolyn rhagweithiol, gwydn, ac ymgysylltiol sy'n angerddol am ddatblygiad ieuenctid a'r byd naturiol. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn chwaraewr tîm hyblyg sy'n dangos perchnogaeth a menter, gan chwilio bob amser am ffyrdd arloesol o gyflawni canlyniadau i bobl ifanc.

• Ymrwymiad a brwdfrydedd dros ddysgu awyr agored a datblygiad ieuenctid

• Cysylltiad cryf â bywyd gwyllt a chynefinoedd; a dangos ymrwymiad i faterion bywyd gwyllt

• Y gallu i herio'r status quo yn weithredol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau a cheisio arfer da

| **Cymwyseddau allweddol** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag ysgolion, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr | x | |
| Y gallu i weithio gan ddefnyddio eich menter eich hun a hefyd i ffynnu fel rhan o dîm | x | |
| Y gallu i amsugno gwybodaeth gymhleth yn gyflym, a'i chyfleu i gynulleidfa nad yw'n arbenigwyr mewn ffordd gryno a diddorol | x | |
| Y gallu i gyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg | | x |
| **Profiad** | | |
| Gweithio ar y cyd â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn lleoliadau ffurfiol a/neu anffurfiol | x | |
| Arwain a chydlynu digwyddiadau a gweithgareddau gyda phobl ifanc yn yr awyr agored | x | |
| Dylunio a chyflwyno rhaglenni dysgu a datblygu i bobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored | x | |
| Profiad o fewn maes sy'n gysylltiedig â bywyd gwyllt, yn enwedig mewn perthynas â gweithio gyda chymunedau a/neu bobl ifanc | | x |
| Cadwraeth ymarferol neu reoli cynefinoedd | | x |
| Wedi cydlynu gwirfoddolwyr neu brosiectau gwirfoddol | | x |
| Profiad o gyswllt â'r wasg a'r cyfryngau | | x |

| **Gwybodaeth a sgiliau** | | |
|---|---|---|
| Sgiliau cyfathrebu / rhyngbersonol rhagorol; yn enwedig siarad a chyflwyno i grwpiau | **x** | |
| Gwybodaeth ymarferol dda am reoli risg ac arferion gweithio diogel yn yr awyr agored | **x** | |
| Gwybodaeth leol am amgylcheddau, demograffeg a heriau lleol Gogledd Cymru | **x** | |
| Gwybodaeth am faterion amgylcheddol a chadwraeth ehangach | **x** | |
| Sgiliau TG cryf | **x** | |
| Dealltwriaeth dda o ddiogelu yng nghyd-destun gwaith | **x** | |
| Trwydded yrru gyfredol | **x** | |
| Gradd (neu gyfwerth) mewn pwnc ecolegol/amgylcheddol | | **x** |
| Gwybodaeth am fudiad Ymddiriedolaethau Natur a'n rhaglenni gwaith | | **x** |
| Gwybodaeth am rôl sefydliadau allweddol yn y sector amgylcheddol | | **x** |
| Cymhwyster cymorth cyntaf | | **x** |
| Hawl gyrru minibws D1 | | **x** |
| Cymwysterau gweithgareddau awyr agored | | **x** |